Fersiwn Cymraeg Clir

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd

www.cymru.gov.uk

Dyddiad cyhoeddi: **30 Tachwedd 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn
**22 Chwefror 2013**

**Fersiwn Cymraeg clir yw hwn o'r ymgynghoriad ar 'Hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd'**

© Hawlfraint y Goron 2013
WG17402

# Cynnwys


**Crynodeb** **1**

**Gwahanol fersiynau** **2**

**Dweud eich dweud** **3**

**Diogelu data: sut bydd eich ymatebion yn cael eu defnyddio** **4**

**Cyflwyniad** **5**

**Hysbysiadau cosb** **7**

Pryd gallai hysbysiad cosb gael ei ddefnyddio? 7
Ydy hysbysiadau cosb yn gweithio? 8

**Y cynigion – defnyddio hysbysiadau cosb** **9**

Pwy fydd yn gallu rhoi hysbysiad cosb? 9
Cod ymddygiad lleol 9
I bwy y mae hysbysiad cosb yn gallu cael ei roi? 10
Rhoi hysbysiadau cosb 10


**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** **12**

**Y camau nesaf** **13**



# Crynodeb

Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl ynglŷn â'r cyflwyniad o hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd sydd ar y gweill.




## Gwahanol fersiynau

Fersiwn Cymraeg Clir yw hwn. Mae ar gyfer pobl sy’n ffafrio dogfen ble mae’r geiriau a’u hystyr yn haws i’w darllen a’u deall. Mae wedi ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Anabledd Dysgu Cymru.

Gallwch hefyd ofyn am y ddogfen ymgynghori mewn:

- print bras
- Braille
- ieithoedd eraill.



# Dweud eich dweud

Mae arnon ni eisiau clywed gan bawb yn enwedig plant, pobl ifanc, eu rhieni, gofalwyr neu eu gwarcheidwaid cyfreithlon.

Fe hoffem i chi ddweud wrthym beth rydych chi'n feddwl am ein cynigion.

I'ch helpu i roi eich barn rydyn ni wedi gwneud ffurflen ymateb Cymraeg Clir i chi ei llenwi a'i dychwelyd.

I ddweud wrthym beth rydych chi'n feddwl e-bostiwch neu postiwch y ffurflen ymateb i ni erbyn **22 Chwefror 2013**.

Y Gangen Lles Disgyblion
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 1706

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan yn:
www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau



# Diogelu data: sut bydd eich ymatebion yn cael eu defnyddio

Bydd staff Llywodraeth Cymru sy’n delio â’r ymgynghoriad yn gweld yr holl ymatebion. Fe allen nhw gael eu defnyddio i helpu aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru pan fyddan nhw’n ymgynghori â phobl.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion y byddwn yn eu derbyn.

Weithiau rydyn ni’n cyhoeddi yr holl ymatebion y byddwn yn eu derbyn. Pan fyddwn ni’n gwneud hyn, fel arfer byddwn yn cyhoeddi enw a chyfeiriad y person neu’r mudiad (neu ran ohono) sydd wedi rhoi eu barn. Mae hyn yn dangos ein bod wedi ymgynghori â phobl yn y ffordd iawn.

**Os nad oes arnoch chi eisiau i ni gyhoeddi eich enw a’ch cyfeiriad, dywedwch wrthym pan ydych yn rhoi eich barn i ni. Yna fe fyddwn yn eu cuddio.**

Mae **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** yn golygu bod pobl yn gallu gofyn am gael gweld gwybodaeth sy’n cael ei gadw gan fudiadau cyhoeddus, fel Llywodraeth Cymru.

Mae’r gyfraith yn caniatáu i ni gadw peth gwybodaeth yn breifat. Os ydych chi’n gofyn i ni beidio â chyhoeddi eich enw a’ch cyfeiriad, byddwn yn ceisio eu cadw’n breifat.

Weithiau rydym yn gorfod dangos enwau a chyfeiriadau. Os bydd hyn yn digwydd byddwn yn cysylltu â chi cyn i ni wneud unrhyw beth.

# Cyflwyniad

Yng Nghymru, mae arnon ni eisiau i bob plentyn gyrraedd eu llawn botensial. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen ar i blant fynd i'r ysgol yn rheolaidd.

Mae plant sy'n colli llawer o ysgol yn aml yn colli tir ac nid ydyn nhw'n gwneud cystal ag y buasan nhw'n gallu. Mwya'n byd o amser mae plentyn yn ei dreulio yn yr ysgol, gorau oll mae'n ei wneud yn yr ysgol a phan fydd yn gadael.

Mae plant sy'n colli ysgol yn rheolaidd yn llai tebygol o fynd ymlaen i'r coleg, wneud hyfforddiant arall, neu gael swydd ar ôl gadael ysgol.

Mae arnon ni eisiau gwneud popeth a allwn i gefnogi plant i fynd i'r ysgol.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed i wella presenoldeb yn yr ysgol.

Yn y tair blynedd diwethaf mae presenoldeb wedi mynd i fyny. Er hynny, mae nifer y plant sydd **yn colli ysgol yn rheolaidd heb ganiatâd** wedi aros yr un fath. Mae hyn yn cael ei ystyried yn **absenoldeb diawdurdod**.

Pan fydd absenoldeb diawdurdod yn dechrau mynd yn broblem, mae ysgolion yn gweithio gyda'r plentyn a'u teulu i wella presenoldeb. Os bydd angen, bydd y Gwasanaethau Lles Addysg yn gweithio gyda'r ysgol i gael y plentyn yn ôl i'r ysgol.

Os bydd absenoldeb diawdurdod yn parhau, gall yr awdurdod lleol a'r ysgolion ddefnyddio:

- contractau rhianta
- gorchmynion rhianta
- gorchmynion mynychu'r ysgol
- llys. Mewn achosion eithafol gall yr awdurdod lleol fynd â rhiant, gofalwr neu warcheidwad i'r llys. Ystyrir erlyniad fel rhywbeth y gellir ei wneud os daw hi i'r pen a dylid gwneud popeth sy'n bosibl i osgoi gwneud hyn.

Gall erlyniad:

- achosi llawer o ofid
- gymryd amser
- fod yn gostus
- efallai na fydd yn gweithio.

Mae awdurdodau lleol yn dweud y byddai'n well ganddyn nhw ddewis arall cyn erlyniad.

Mae arnyn nhw eisiau gallu rhoi **hysbysiad cosb** i gael plentyn yn ôl i'r ysgol. Maen nhw'n credu y byddai hysbysiad cosb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol na mynd i'r llys.

Dylai hysbysiadau cosb gael eu gweld fel dewis ychwanegol i'w defnyddio ymysg dewisiadau eraill i leihau absenoldebau diawdurdod.

## Hysbysiadau cosb

Dim ond ar gyfer **absenoldeb diawdurdod** y gellir defnyddio hysbysiad cosb. Dyma'r adeg pan gredir y **gallai** rhiant, gofalwr neu warcheidwad gael eu plentyn i fynd i'r ysgol yn rheolaidd ond nad yw'n gwneud yr ymdrech i wneud hynny.

Gallai **absenoldeb diawdurdod** fod yn:

- amlwg yn driwantiaeth – gan gynnwys disgyblion sy'n cael eu dal wrth **gyrchu triwantiaid**. Ystyr **cyrchu triwantiaid** yw pan fydd swyddog o'r heddlu a/neu Swyddog Lles Addysg yn dod o hyd i blant ar y stryd yn ystod amser ysgol. Os yw'r absenoldeb o'r ysgol heb awdurdod maen nhw'n eu dychwelyd i'r ysgol
- gormod o wyliau yn ystod tymor yr ysgol
- peidio â dychwelyd i'r ysgol cyn gynted ag y mae'r gwyliau drosodd
- hwyr dro ar ôl tro – cyrraedd yr ysgol ar ôl i amser cofrestru orffen
- dyddiau i ffwrdd ar gyfer siopa Nadolig neu dripiau siopa eraill
- dyddiau i ffwrdd i fynd i weld y meddyg neu fynd at y deintydd ar ddechrau neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol
- unrhyw absenoldeb y mae'r rhiant, gofalwr neu'r gwarcheidwad yn ymwybodol ohono ond y mae heb gael caniatâd amdano gan yr ysgol.

Byddai hysbysiad cosb yn **un o'r opsiynau** sydd ar gael i annog presenoldeb yn yr ysgol. Ni fyddan nhw'n iawn ym mhob sefyllfa ac mae angen ystyried amgylchiadau personol cyn rhoi hysbysiad cosb.

Mewn rhai achosion, gall bygythiad hysbysiad cosb fod yn ddigon i gael plentyn yn ôl i'r ysgol.

### Pryd gallai hysbysiad cosb gael ei ddefnyddio?

Dyma rai enghreifftiau pryd gallai hysbysiad cosb gael ei ddefnyddio:

- pan na fydd rhieni, gofalwyr neu'r gwarcheidwaid yn cefnogi ymdrechion yr ysgol neu'r Gwasanaeth Lles Addysg i wella presenoldeb yn yr ysgol
- pan fydd rhieni, gofalwyr neu'r gwarcheidwaid yn methu sicrhau bod eu plentyn yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd am gyfnod a gafodd ei gytuno
- pan na fydd contractau rhianta a/neu orchmynion rhianta wedi bod yn llwyddiannus
- pan fydd rhieni, gofalwyr neu'r gwarcheidwaid yn anfodlon arwyddo cytundeb i gefnogi presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, heb reswm da

- pan fydd seibiannau yn ystod tymor yr ysgol yn barod wedi eu cymryd heb gytundeb a bydd rhieni, gofalwyr neu'r gwarcheidwaid wedi cael rhybudd, fe allen nhw gael hysbysiad cosb pe byddai'n digwydd eto
- pan fydd plentyn yn hwyr yn gyson, yn cyrraedd ar ôl i'r cofrestru orffen
- pan fydd yr heddlu'n dod o hyd i blentyn tu fas i'r ysgol yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol heb reswm da neu mae'n rhan o weithgarwch troseddol ar y pryd.

## Ydy hysbysiadau cosb yn gweithio?

Dangoswyd bod hysbysiadau cosb yn gweithio ble:

- mae absenoldeb diawdurdod yn dechrau bod yn broblem
- does dim rheswm da dros bresenoldeb isel.

Mae hysbysiadau cosb yn effeithiol hefyd wrth ddelio â:

- phrydlondeb – pan fydd plentyn yn hwyr yn gyson
- amgylchiadau pan na fydd rhesymau cymhleth dros absenoldeb o'r ysgol.

Mae hysbysiadau cosb yn llai effeithiol:

- pan fydd problemau teuluol cudd
- pan fydd colli'r ysgol wedi bod yn digwydd am beth amser.

Rydyn ni'n credu felly y gall hysbysiadau cosb helpu pan na fydd problemau cymhleth ac mae cefnogaeth yn ei le i helpu'r plentyn fynd i'r ysgol.

Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i amgylchiadau personol, cyn i'r penderfyniad i roi hysbysiad gael ei gymryd.

# Y cynigion – defnyddio hysbysiadau cosb

Byddai’r awdurdod lleol yn gyfrifol am redeg cynllun hysbysiadau cosb.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael ei drin yn deg, mae’n rhaid iddyn nhw ddatblygu **cod ymddygiad lleol**.

Bydd y cod ymddygiad yn cael ei ddilyn gan bawb sy’n rhoi hysbysiad cosb.

## Pwy fydd yn gallu rhoi hysbysiad cosb?

Bydd y pobl canlynol yn gallu rhoi hysbysiad cosb:

- penaethiaid
- yr heddlu (gan gynnwys swyddogion cefnogi cymunedol)
- Swyddogion Lles Addysg.

Mae’n rhaid iddyn nhw ddilyn y cod ymddygiad lleol a darparu copi o’r hysbysiad i’r awdurdod lleol.

## Cod ymddygiad lleol

Mae’r cod ymddygiad lleol yn bwysig i lwyddiant y hysbysiadau cosb. Y mae’n bodoli i wneud yn siŵr bod disgyblion a’u teuluoedd yn cael eu trin yr un fath, ble bynnag maen nhw’n byw. Gall y cod gael ei addasu ar gyfer anghenion ac adnoddau lleol, ond **mae’n rhaid iddyn nhw gynnwys:**

- ffyrdd o osgoi rhoi mwy nag un hysbysiad cosb i rieni, gofalwyr neu warcheidwaid am yr un tramgwydd (dylai holi’r Gwasanaethau Lles Addysg rwystro hyn rhag digwydd)
- adegau pryd y gellir defnyddio hysbysiadau cosb, gan gynnwys:
  - y lefel o absenoldeb diawdurdod sydd ei hangen i achosi hysbysiad cosb. Mae’n rhaid i hwn fod yn ddigon uchel i erlyn os na fydd y gosb yn cael ei thalu
  - y nifer o hysbysiadau cosb y gellir eu rhoi i un person mewn blwyddyn
  - y ffordd y bydd mudiadau lleol yn cydweithio.

## I bwy y mae hysbysiad cosb yn gallu cael ei roi?

Mae hysbysiad cosb yn gallu cael ei roi i riant, gofalwr neu warcheidwad plentyn (dan 16 oed) sydd wedi ei gofrestru mewn:

- ysgol a gynhelir
- uned cyfeirio disgyblion
- ddarpariaeth addysgol amgen.

## Rhoi hysbysiadau cosb

Mae llawer cam wrth ddelio ag absenoldeb diawdurdod.

### Cam 1: Llythyr rhybuddio ffurfiol

Pan fydd absenoldeb diawdurdod yn dechrau bod yn broblem bydd rhieni, gofalwyr neu warcheidwaid yn derbyn llythyr ffurfiol.

Bydd y llythyr yn eu cynghori ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd os na fydd presenoldeb eu plentyn yn gwella.

Mae'n egluro y gallen nhw wynebu cosb neu erlyniad os nad ydyn nhw'n gwneud yn siŵr bod eu plentyn yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd.

### Cam 2: Rhoi'r hysbysiad cosb

Os nad yw llythyr ffurfiol yn cael y plentyn yn ôl i'r ysgol, bydd hysbysiad cosb yn cael ei ystyried.

Dim ond os bydd hysbysiad cosb yn debygol o weithio y bydd yn cael ei roi.

Gall rhybudd gael ei roi ar gyfer y tramgwydd cyntaf ond bydd hysbysiad cosb yn gallu cael ei roi os bydd absenoldeb estynedig wedi cael ei gadarnhau gan y rhiant, gofalwr neu warcheidwad.

Dylai hysbysiadau cosb gael eu rhoi yn unol â'r cod ymddygiad lleol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon erlyn os nad yw'r ddirwy'n cael ei thalu a rhaid iddo fedru gwneud hynny.

Os credir y byddai rhybudd cosb yn llwyddiannus, byddai rhieni, gofalwyr neu'r gwarcheidwaid yn cael y cyfle i dalu'r **ddirwy** yn lle mynd i'r llys. Bydden nhw'n **talu'r gosb o £60 o fewn 28 diwrnod. Bydd y gosb yn codi i £120 os yw'n cael ei thalu ar ôl 28 diwrnod ond cyn 42 diwrnod.**

### Cam 3: Camau ar ôl peidio â thalu

Ni all rhiant, gofalwr neu warcheidwad gael ei erlyn tan ar ôl i'r dyddiad cau terfynol talu fynd heibio.

Unwaith y mae'r gosb wedi ei thalu, ni all rhiant, gofalwr neu warcheidwad gael ei ddyfarnu'n euog o'r tramgwydd.

**Os nad yw'r gosb wedi cael ei thalu'n llawn erbyn diwedd y 42 dydd**, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol un ai:

- erlyn am y tramgwydd
- dynnu'r hysbysiad yn ei ôl.

**Bydd hysbysiad cosb yn gallu cael ei dynnu yn ei ôl dim ond os:**

- na ddylai fod wedi cael ei roi yn y lle cyntaf. Er enghraifft, os nad yw'n unol â nodau'r cod ymddygiad lleol neu os nad oes tramgwydd wedi cael ei gyflawni
- y mae wedi cael ei roi i'r person anghywir
- y mae peth o'r wybodaeth y mae'n ei gynnwys yn anghywir.

Gall yr awdurdod lleol ddefnyddio unrhyw arian sy'n cael ei dalu fel dirwy i dalu am gost cynllun y hysbysiadau cosb. Os oes arian ar ôl, mae'n rhaid iddo gael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru. Hwn yw'r cyfrif banc sy'n cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru.

Rydyn ni'n gallu cyflwyno rhybuddion cosb dan Adran 444A Deddf Addysg 1996.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n amddiffyn hawliau plant dan 18 oed.

Yn ychwanegol at Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae'n ofynnol ar Weinidogion Cymru gyfeirio at hawliau rhyngwladol y plentyn wrth gynnig polisïau a deddfwriaeth newydd.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio amddiffyn hawliau'r plentyn i addysg yn arbennig.

Mae'n ofynnol hefyd ein bod yn cynnwys plant ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw. Rydyn ni'n gobeithio y bydd gwneud y ddogfen hon mewn Cymraeg Clir yn annog plant a phobl ifanc i ddarganfod mwy am hysbysiadau cosb a dweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl.

## Y camau nesaf

Bydd crynodeb o'r ymatebion rydyn ni'n eu derbyn yn cael eu cyhoeddi ar-lein. Byddan nhw'n cael eu hystyried wrth ddatblygu ein polisi i gyflwyno hysbysiadau cosb.

Bydd y cynigion hyn yn cael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy **Reoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru).** Mae angen ar i hysbysiadau cosb gael eu cadarnhau gan Aelodau'r Cynulliad cyn iddyn nhw cael eu rhoi mewn grym.